Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/44: Atodiad E

# Y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru

## Fframwaith Asesu Grantiau

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


1. Rhagair .......... 3
2. Y Broses Asesu .......... 3
3. Y Daith Asesu .......... 4
4. Cam 1 – Amodau Rheoleiddio a Chyllido ar gyfer Asesu .......... 4
5. Cam 2 – Tystiolaeth o’r gallu i gyflwyno’r rhaglen brentisiaethau .......... 7
6. Adran Asesu 1 - Cyflwyno Sectorau a Llwybrau'r Prentisiaethau .......... 9
7. Adran Asesu 2 – Cyflwyno’r Rhaglen .......... 10
8. Adran Asesu 3 – Ymgysylltu â dysgwyr a chyflogwyr, eu cefnogi a chyflenwi .......... 10
9. Adran Asesu 4 – Y Gymraeg .......... 11
10. Adran Asesu 5 a 6 – Cyflawni Nodau ac Amcanion y Rhaglen, gan gynnwys Dysgwyr wedi’u Dadleoli .......... 11

# Y Rhaglen Brentisiaethau – Fframwaith Asesu Grantiau

## 1. Rhagair

1.1. Sefydlwyd y Rhaglen Brentisiaethau er mwyn canfod ymgeiswyr sy'n gallu cyflwyno darpariaeth prentisiaethau o safon sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru. Ond nid dyna yw unig nod y Rhaglen. Gan fod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu, mae gan Medr gyfrifoldeb i sicrhau bod pob cais yn cael ei asesu'n deg, yn gyson ac yn dryloyw.

1.2. Mae'r ddogfen hon yn egluro sut y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu drwy gydol y broses ymgeisio am grant. Fe'i cynhyrchwyd er mwyn helpu ymgeiswyr i ddeall gofynion pob cam asesu, sut y gwneir penderfyniadau, a sut y bydd canlyniadau asesu yn cyfrannu at swm y grant a ddyfernir.

1.3. Mae'r broses asesu wedi'i chynllunio i sicrhau bod ymgeiswyr yn dangos yn gyntaf eu bod yn bodloni amodau cyllido Medr cyn asesu ansawdd eu cynigion. Dim ond ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion Cam 1 yn llwyddiannus fydd yn gymwys i gael eu hasesu yng Ngham 2.

## 2. Y Broses Asesu

2.1. Defnyddir proses asesu dau gam ar gyfer y Grant Prentisiaethau.

2.2. Mae'r cam cyntaf yn sefydlu a yw ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus drwy gadarnhau ei fod yn bodloni amodau cyllido Medr. Asesiad porth yw hwn ac fe'i asesir ar sail Llwyddo/Methu. Dim ond ymgeiswyr sy'n llwyddo i brofi eu bod yn bodloni amodau cyllido Medr yng Ngham 1 fydd yn gymwys i gyflwyno cais manwl yng Ngham 2, a chael asesiad o'r cais hwnnw.

2.3. Mae Cam 2 yn asesu cais manwl yr ymgeisydd, hynny yw, ansawdd y trefniadau a gynigir gan yr ymgeisydd er mwyn cyflwyno prentisiaethau. Caiff y cam hwn ei asesu drwy ddefnyddio'r meini prawf cyhoeddedig a'r dull sgorio sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon i lywio argymhellion cyllido a phenderfyniadau dyrannu.

2.4. Mae'r dull dau gam yn sicrhau na chaiff cyllid cyhoeddus ond ei ddarparu i ymgeiswyr sy'n dangos cydymffurfiaeth â gofynion gorfodol Medr yn gyntaf cyn cael eu hasesu ar ansawdd eu darpariaeth arfaethedig.

2.5. Os yw ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad yr asesiad, dylai ddilyn y broses apelio a nodir yn Atodiad F.

## 3. Y Daith Asesu

| Cam | Pwrpas | Dull Asesu | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Cam 1 – Cadarnhad bod Ymgeiswyr yn bodloni amodau cyllido Medr | Yn cadarnhau cymhwystra a chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion gorfodol. | Llwyddo / Methu | Mae ymgeiswyr sy'n bodloni Cam 1 yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer asesiad Cam 2 |
| Cam 2 – Tystiolaeth o’r gallu i gyflwyno’r rhaglen brentisiaethau | Yn asesu ansawdd, gallu a darpariaeth y cynigion a gyflwynwyd yn y Cais am Grant. | Asesiad Grant wedi'i Sgorio | Gellir ystyried dyrannu grant i geisiadau sy'n bodloni'r gofynion asesu perthnasol. |
| Cam 3 – Dyrannu Cyllid Grant | Yn ystyried canlyniadau asesiadau ochr yn ochr â chyllid sydd ar gael, blaenoriaethau strategol ac amcanion y rhaglen. | Penderfyniad Dyrannu | Dyfarnu Grant (lle bo'n berthnasol). |

## 4. Cam 1 – Amodau Rheoleiddio a Chyllido ar gyfer Asesu

4.1. Mae Cam 1 yn rhoi sicrwydd bod ymgeiswyr yn bodloni amodau gorfodol Medr ar gyfer rheoleiddio a chyllido cyn symud ymlaen i'r cam asesu ansawdd.

4.2. Caiff pob ymgeisydd ei asesu yn erbyn yr un gofynion gorfodol, a rhaid iddo lwyddo i ddangos cydymffurfiaeth cyn y gellir ystyried y cais yng Ngham 2.

4.3. Diben Cam 1 yw rhoi hyder i Medr fod gan ymgeiswyr y trefniadau angenrheidiol o ran llywodraethu sefydliadol, sefyllfa ariannol, cydymffurfiaeth â rheoliadau a sicrwydd er mwyn rheoli cyllid cyhoeddus yn gyfrifol.

4.4. Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i fodloni'r amodau cyllido yn symud ymlaen i Gam 2.

### Asesiad Cam 1

4.5. Cyfeiriwch at Atodiad A am yr union ofynion, ond i ddibenion y ddogfen hon, mae'r gofynion hyn yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

| Maes Asesu | Pwrpas |
|---|---|
| Statws Cyfreithiol | Cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi'i sefydlu'n gyfreithiol ac yn gymwys i dderbyn cyllid grant. |

| Maes Asesu | Pwrpas |
| --- | --- |
| Llywodraethu a rheoli | Cadarnhad bod gan yr ymgeisydd drefniadau llywodraethu, arwain ac atebolrwydd priodol. |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn hyfyw yn ariannol ac yn gallu rheoli arian cyhoeddus. |
| Ansawdd a gwelliant parhaus | Tystiolaeth bod yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth a gyflwynir ar ei ran, yn cynnal darpariaeth o ansawdd uchel ac yn dangos ymrwymiad i wella'n barhaus. |
| Llesiant staff a dysgwyr | Cadarnhad bod gan yr ymgeisydd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hyrwyddo llesiant dysgwyr a staff. |
| Y Gymraeg | Rhaid i Gorff Llywodraethu'r ymgeisydd, neu gorff cyfatebol, gyhoeddi a chynnal Strategaeth y Gymraeg erbyn mis Rhagfyr 2027. Dylai'r strategaeth hon nodi sut y bydd y darparydd yn:<br>• hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y rhaglen, fel y gall pobl - gan gynnwys staff a dysgwyr - ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywyd bob dydd<br>• cynyddu'r galw am addysg drydyddol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac os cynigir hynny, y Gymraeg fel pwnc, a chyfranogiad yn hynny. |
| Diogelu dysgwyr | Cadarnhad y bydd gan yr ymgeisydd gynllun diogelu dysgwyr ar waith sydd wedi'i gymeradwyo gan Medr, ar neu cyn y dyddiad a bennir gan Medr a rhaid iddo ymrwymo i weithredu'r cynllun hwnnw, lle bo'n berthnasol. |
| Cod ymgysylltu â dysgwyr | Cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol)<br>Darparu tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'i effaith. |
| Cyfle cyfartal | Cyflawni canlyniadau mesuradwy i hyrwyddo pob un o'r nodau canlynol:<br>• cynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol<br>• cadw dysgwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol hyd ddiwedd eu cyrsiau<br>• lleihau unrhyw fylchau o ran cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr, lle bo'r gwahaniaethau'n deillio o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol<br>• rhoi cefnogaeth i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gorffen eu cyrsiau, |

| Maes Asesu | Pwrpas |
|---|---|
| | i barhau â'u haddysg, i ganfod swydd gyflogedig neu ddechrau busnes |
| Gweithdrefnau cwyno | Gael gweithdrefn ar waith er mwyn ymchwilio i gwynion gan ddysgwyr a chyn-ddysgwyr ynghylch gweithred neu ddiffyg gweithredu ar ran y darparydd.<br>Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod am y weithdrefn. |
| Rhoi ystyriaeth i gyngor a chanllawiau | Rhoi ystyriaeth i gyngor neu ganllawiau a roddir gan Medr i'r corff (naill ai'n benodol neu i bersonau yn gyffredinol) wrth arfer swyddogaethau Medr o dan y Ddeddf ac felly:<br>Rhoi ystyriaeth i unrhyw gyngor neu ganllawiau a gyhoeddir gan Medr, boed y rheiny wedi'u cyfeirio'n benodol at y darparydd neu'n fwy cyffredinol at y sector, gan gydnabod y gall darparwyr fabwysiadu dulliau amgen lle bo'n briodol i'w cyd-destun.<br>Gallu esbonio'r rhesymeg dros eu dull os gofynnir amdano, ond ni ddisgwylir cyfiawnhad nac adroddiadau rheolaidd. |
| Gwybodaeth, cymorth a mynediad | Mae'r ymgeisydd yn cytuno i roi'r cyfryw wybodaeth, cymorth a mynediad Mae'r ymgeisydd yn cytuno i Medr, neu i unigolyn a awdurdodir gan Medr, at gyfleusterau, systemau ac offer y darparydd, fel y bo'n rhesymol ofynnol er mwyn i Medr gyflawni ei swyddogaethau. |
| Datganiadau | Cwblhau datganiadau gorfodol. |
| Diogelwch Digidol a Data | Bodloni'r gofynion digidol a diogelwch. |
| Rhanbarthau a sectorau prentisiaeth a gynllunnir o fewn y ddarpariaeth | Er gwybodaeth yn unig - ni chaiff hyn ei asesu tan yn ddiweddarach. |

4.6. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ategol fel y manylir yn Atodiad A. Gallai methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys tystiolaeth ategol o'r fath, olygu bod y cais yn methu, ac na fydd yr ymgeisydd yn symud ymlaen i Gam 2.

## Canlyniad Asesiad Cam 1

4.7. Bydd pob gofyniad Cam 1 (ac eithrio Rhanbarthau a sectorau prentisiaeth a gynllunnir o fewn y ddarpariaeth) yn cael ei asesu ar sail Llwyddo/Methu.

4.8. Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl ofynion gorfodol yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i Gam 2. Gall Medr geisio eglurhad lle ceir ansicrwydd gwirioneddol ynghylch gwybodaeth a gyflwynwyd yn rhan o broses Cam 1. Dim ond i ddeall yr wybodaeth a gyflwynwyd eisoes y caniateir defnyddio eglurhad, ac ni ddylid defnyddio hynny i

roi cyfle i ymgeisydd newid, gwella neu ychwanegu at ei gais i raddau sylweddol ar ôl ei gyflwyno.

## 5. Cam 2 – Tystiolaeth o’r gallu i gyflwyno’r rhaglen brentisiaethau

5.1. Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni Cam 1 yn gymwys ar gyfer asesiad Cam 2. Mae Cam 2 yn ystyried ansawdd y ddarpariaeth prentisiaethau a gynigir gan bob Ymgeisydd ac yn llywio argymhellion i Fwrdd Medr ynghylch cyllid grant.

5.2. Mae Cam 2 yn cynnwys asesiad cymharol i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r meini prawf cyhoeddedig, amcanion y rhaglen ac ansawdd y ceisiadau a dderbynnir. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ansawdd y cynigion a gyflwynir yn hytrach na hanes cyllido blaenorol neu faint y sefydliad. Dylid esbonio'n glir mewn ceisiadau sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cyflawni gofynion y rhaglen brentisiaethau a darparu digon o dystiolaeth a data i gefnogi'r honiadau a wneir.

5.3. Mae Cam 2 wedi'i strwythuro'n bum Adran Asesu, gyda phob un yn adlewyrchu agwedd allweddol ar ddarparu prentisiaethau, ac yn cyfrannu at ganlyniad cyffredinol yr asesiad. Mae pob Adran Asesu yn cynnwys un neu fwy o gwestiynau cais, a fydd yn cael eu hasesu yn erbyn y dull sgorio cyhoeddedig cyn cyfrifo'r sgôr bwysol ar gyfer yr Adran honno. Mae'r pum Adran Asesu wedi'u nodi yn adran 6 isod a manylir arnynt ymhellach yn Atodiad A.

5.4. Bydd pob cwestiwn yn cael ei sgorio drwy ddefnyddio'r dull sgorio cyhoeddedig 0-5 ar sail hyder, a nodir yn Nhabl 1. Bydd y sgôr a ddyfernir yn adlewyrchu'r graddau y mae ymateb yr Ymgeisydd yn rhoi tystiolaeth glir, berthnasol a chredadwy y gall gefnogi gofynion perthnasol y Rhaglen Brentisiaethau.

**Tabl 1 – Dull Sgorio Cam 2**

| Sgôr | Disgrifiad |
|---|---|
| 0 | Ni ddarparwyd unrhyw ymateb na thystiolaeth berthnasol. |
| 1 | Ychydig iawn o hyder: i raddau helaeth mae'r ymateb yn annigonol, yn brin o dystiolaeth berthnasol, ac nid yw'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r gofyniad perthnasol. |
| 2 | Rhywfaint o hyder: mae'r ymateb yn ymdrin yn rhannol â'r cwestiwn ond mae'n cynnwys bylchau sylweddol, tystiolaeth wan neu'n brin o fanylion, sy'n golygu mai ond rhywfaint o sicrwydd a geir. |
| 3 | Lefel gymedrol o hyder: mae'r ymateb yn ymdrin â'r cwestiwn ac yn darparu tystiolaeth berthnasol, ond nid yw'n cynnwys digon o fanylder na sicrwydd, nac wedi'i ddatblygu'n ddigonol i gyfiawnhau sgôr uwch. |
| 4 | Lefel dda o hyder: mae'r ymateb yn ymdrin â'r cwestiwn yn dda, mae'n glir ac yn cynnig tystiolaeth dda. Nid yw ond yn cynnwys mân fylchau, ansicrwydd neu agweddau lle mae angen sicrwydd pellach. |

| | |
|---|---|
| 5 | Lefel uchel o hyder: mae'r ymateb yn gynhwysfawr, yn glir ac yn gredadwy, yn rhoi tystiolaeth gref a lefel uchel o sicrwydd y bydd yr Ymgeisydd yn bodloni'r gofyniad perthnasol. |

5.5. Lle bo Adran Asesu yn cynnwys mwy nag un cwestiwn, bydd sgoriau'r cwestiynau unigol yn cael eu cyfuno i gynhyrchu sgôr adran gyfartalog.

5.6. Caiff sgôr gyfartalog yr adran wedyn ei throsi'n sgôr bwysol ar gyfer yr adran drwy ei rhannu â 5, sef y sgôr uchafswm sydd ar gael ar gyfer cwestiwn unigol, a lluosi'r canlyniad â'r pwysoliad cyhoeddedig ar gyfer yr adran honno, fel y dangosir yn Nhabl 2. Bydd y sgoriau pwysol ar gyfer pob un o'r pum adran asesu wedyn yn cael eu hadio i gyfrifo cyfanswm sgôr asesu bwysol y cais.

**Sgôr Gyfartalog yr Adran / Uchafswm Sgôr y Cwestiwn (5) x Pwysoliad yr Adran = Sgôr Bwysol yr Adran**

**Enghraifft ymarferol:** Pe bai Ymgeisydd yn derbyn sgoriau o 4, 3 a 5 ar gyfer y tri chwestiwn yn Adran Asesu 1, Cyflwyno Sectorau a Llwybrau Prentisiaeth, byddai sgôr gyfartalog yr adran yn 4.

Byddai sgôr bwysol yr adran wedyn yn cael ei chyfrifo fel a ganlyn: 4 ÷ 5 × 20 = 16. Mae hyn yn golygu y byddai'r Ymgeisydd yn derbyn 16 allan o'r 20 pwynt pwysol sydd ar gael ar gyfer Adran Asesu 1.

**Cyfanswm holl Sgorau Pwysol yr Adrannau = Cyfanswm Sgôr Asesu Bwysol**

**Tabl 2 – Crynodeb o'r Asesiad**

| Adran Asesu – Elfen 1 | Cwestiynau'r Cais | Pwysoliad |
|---|---|---|
| 1 . Cyflwyno Sectorau a Llwybrau Prentisiaeth | C1–C3 | 20% |
| 2. Cyflwyno Rhaglenni | C4–C6 | 20% |
| 3. Ymgysylltu â dysgwyr a chyflogwyr, eu cefnogi a chyflenwi | C7–C13 | 30% |
| 4. Y Gymraeg | C14 | 10% |
| 5 a 6. Cyflawni Nodau ac Amcanion y Rhaglen, gan gynnwys Dysgwyr wedi'u Dadleoli | C15-17 | 20% |

| Adran Asesu – Elfen 2 | Cwestiynau'r Cais | Pwysoliad |
|---|---|---|
| 1 . Cyflwyno Sectorau a Llwybrau Prentisiaeth | C1–C2 | 20% |
| 2. Cyflwyno Rhaglenni | C3–C5 | 20% |
| 3. Ymgysylltu â dysgwyr a chyflogwyr, eu cefnogi a chyflenwi | C6-C10 | 30% |
| 4. Y Gymraeg | C10-C11 | 10% |
| 5 a 6. Cyflawni Nodau ac Amcanion y Rhaglen, gan gynnwys Dysgwyr wedi'u Dadleoli | C11-12 | 20% |

| Adran Asesu – Elfen 3 | Cwestiynau'r Cais | Pwysoliad |
|---|---|---|
| 1 . Cyflwyno Sectorau a Llwybrau Prentisiaeth | C1–C2 | 20% |
| 2. Cyflwyno Rhaglenni | C3-C4 | 50% |
| 3. Cyflawni Nodau ac Amcanion y Rhaglen. | C5 | 30% |

## 6. Adran Asesu 1 - Cyflwyno Sectorau a Llwybrau'r Prentisiaethau

6.1. Rhifau Cwestiynau'r Cais am Grant:

| Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd | Elfen 2 – Prentisiaethau Gradd | Elfen 3 – Prentisiaethau â Chymorth |
|---|---|---|
| Cwestiwn 1 – Ymateb i Gyflwyno Sectorau a Rhanbarthau | Cwestiwn 1 – Ymateb i Anghenion Rhanbarthol a'r Farchnad Lafur | Cwestiwn 1 – Cyflwyno'n Rhanbarthol |
| Cwestiwn 2 – Ymateb i Anghenion Rhanbarthol a'r Farchnad Lafur | Cwestiwn 2 – Ymateb i Ofynion Sgiliau'r Dyfodol | Cwestiwn 2 – Mecanweithiau arloesol a hyblyg er mwyn helpu dysgwyr i gael mynediad at gyfleoedd prentisiaeth. |
| Cwestiwn 3 – Ymateb i Ofynion Sgiliau'r Dyfodol | | |

6.2. Mae'r adran hon yn asesu dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r galw am sgiliau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ledled Cymru, a'i allu i gyflwyno llwybrau prentisiaeth sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr, blaenoriaethau rhanbarthol a pholisi Llywodraeth Cymru. Bydd Medr yn ystyried ehangder y ddarpariaeth a gynigir, y graddau y mae'n cyd-fynd â gwybodaeth am y farchnad lafur, ei hyblygrwydd i ymateb i flaenoriaethau yn y dyfodol a hygrededd y model cyflwyno a gynigir.

**Pwysoliad Cyffredinol: 20%**

## 7. Adran Asesu 2 – Cyflwyno'r Rhaglen

7.1. Rhifau Cwestiynau'r Cais am Grant:

| Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd | Elfen 2 – Prentisiaethau Gradd | Elfen 3 – Prentisiaethau â Chymorth |
|---|---|---|
| Cwestiwn 4 – Cefnogi Darpariaeth Arloesol a Hyblyg | Cwestiwn 3 – Cefnogi Darpariaeth Arloesol a Hyblyg | Cwestiwn 3 – rhoi cefnogaeth well i ddysgwyr |

| | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn 5 – Cefnogi Deilliannau Dysgwyr | Cwestiwn 4 – Cefnogi Deilliannau Dysgwyr | Cwestiwn 4 - Cefnogi Deilliannau Dysgwyr |
| Cwestiwn 6 – Cefnogi Hunanasesiad a Gwelliant Parhaus | Cwestiwn 5 – Cefnogi Hunanasesiad a Gwelliant Parhaus | |

7.2. Mae'r adran hon yn asesu sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu trefnu, cyflwyno a gwella'r ddarpariaeth prentisiaethau yn barhaus. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ansawdd trefniadau dysgu ac addysgu, arloesi, cyflawniad dysgwyr, prosesau sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd trefniadau gwelliant parhaus.

**Pwysoliad Cyffredinol: 20% ar gyfer elfen 1 ac elfen 2**
**Pwysoliad cyffredinol: 50% ar gyfer elfen 3**

## 8. Adran Asesu 3 – Ymgysylltu â dysgwyr a chyflogwyr, eu cefnogi a chyflenwi

8.1. Rhifau Cwestiynau'r Cais am Grant:

| Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd | Elfen 2 – Prentisiaethau Gradd |
|---|---|
| Cwestiwn 7 – Cefnogi Asesiad Cychwynnol y Dysgwr | Cwestiwn 6 – Cefnogi Asesiad Cychwynnol y Dysgwr |
| Cwestiwn 8 – Cefnogi Mentora Dysgwyr | Cwestiwn 7 – Cefnogi Mentora Dysgwyr |
| Cwestiwn 9 – Cefnogi Mentora Cyflogwyr | Cwestiwn 8 – Cefnogi Mentora Cyflogwyr |
| Cwestiwn 10 – Cefnogi Ehangu Mynediad a Chyfranogiad | Cwestiwn 9 – Cefnogi Ehangu Mynediad a Chyfranogiad |
| Cwestiwn 11 – Cefnogi Ymgysylltiad â Chyflogwyr | Cwestiwn 10 – Cefnogi Ymgysylltiad â Chyflogwyr |
| Cwestiwn 12 – Cefnogi Rhannu Prentisiaethau | |
| Cwestiwn 13 – Defnyddio'r Gyllideb Costau Ychwanegol | |

8.2. Mae'r adran hon yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r asesiad gan fod cyflwyno prentisiaethau'n llwyddiannus yn dibynnu ar ymgysylltiad o ansawdd uchel â dysgwyr a chyflogwyr drwy gydol y daith brentisiaeth. Bydd aseswyr yn ystyried sut mae ymgeiswyr yn bwriadu recriwtio, cefnogi, mentora a chadw dysgwyr wrth

gydweithio â chyflogwyr i sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o ddeilliannau llwyddiannus.

8.3. Bydd tystiolaeth o arfer cynhwysol, cymorth i ddysgwyr, parodrwydd cyflogwyr i ymateb a gweithio mewn partneriaeth effeithiol yn cael ei hystyried ar draws yr holl ymatebion.

**Pwysoliad Cyffredinol: 30%**

## 9. Adran Asesu 4 – Y Gymraeg

9.1. Rhifau Cwestiynau'r Cais am Grant:

| Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd | Elfen 2 – Prentisiaethau Gradd |
|---|---|
| Cwestiwn 14 – Annog a hyrwyddo’r Gymraeg | Cwestiwn 11 – Annog a hyrwyddo’r Gymraeg |

9.2. Mae'r adran hon yn asesu sut y bydd ymgeiswyr yn ymgorffori'r Gymraeg drwy'r holl ddarpariaeth prentisiaethau. Mae'r asesiad yn ystyried cydymffurfiaeth â disgwyliadau Medr a'r graddau y bydd ymgeiswyr yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr a chyflogwyr ymgysylltu â darpariaeth prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

9.3. Bydd aseswyr yn ystyried ymrwymiad strategol, trefniadau cyflawni ymarferol a chyfleoedd i hyrwyddo cyfleoedd Cyfrwng Cymraeg a chynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg.

**Pwysoliad Cyffredinol: 10%**

## 10. Adran Asesu 5 a 6 – Cyflawni Nodau ac Amcanion y Rhaglen, gan gynnwys Dysgwyr wedi’u Dadleoli

10.1. Rhifau Cwestiynau'r Cais am Grant:

| Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd | Elfen 2 – Prentisiaethau Gradd | Elfen 3 – Prentisiaethau â Chymorth |
|---|---|---|
| Cwestiwn 15 – Ymrwymo i Gefnogi Dysgwyr sydd wedi’u Dadleoli | Cwestiwn 12 – Sicrhau prosesau Llywodraethu a Sicrwydd effeithiol | Adran 3 o gwestiwn 5 y cais am grant - Sicrhau prosesau Llywodraethu a Sicrwydd effeithiol |
| Cwestiwn 16 – Rheoli cymorth i Ddysgwyr sydd wedi’u Dadleoli | | |
| Cwestiwn 17 – Sicrhau prosesau Llywodraethu a Sicrwydd effeithiol | | |

10.2. Mae'r adran hon yn asesu trefniadau'r sefydliad i sicrhau bod darpariaeth prentisiaethau a gyllidir yn parhau i fod yn gyson â'r Rhaglen brentisiaethau drwy gydol y cyfnod cyllido, a pharodrwydd yr ymgeisydd i gefnogi dysgwyr os bydd rhywbeth yn tarfu ar eu darpariaeth prentisiaeth yn ystod eu rhaglen brentisiaeth.

10.3. Bydd Medr yn ystyried trefniadau'r ymgeisydd ar gyfer llywodraethu, sicrwydd sefydliadol, cydymffurfiaeth â rheoliadau, trefniadau archwilio, rheoli perfformiad, cynaliadwyedd ariannol a rheoli risg, ynghyd â'i allu i ddangos bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gyflawni amcanion y rhaglen.

10.4. Bydd yr asesiad yn ystyried y trefniadau a gynigir i ddiogelu parhad dysgwyr os bydd rhywbeth yn tarfu ar y ddarpariaeth a gyllidir, gan gynnwys cefnogi cyfnodau pontio a sicrhau bod hynny'n amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y dysgu.

**Pwysoliad Cyffredinol: 20% ar gyfer elfen 1 ac elfen 2**
**Pwysoliad cyffredinol: 30% ar gyfer elfen 3**

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government